



RYDYM YN DAL I GAEL EIN HANWYBYDDU: Y FRWYDR DROS OFAL IECHYD HYGYRCH

ADRODDIAD POLISI 2025
CYMRU



**RN
I:D** | Supporting people
who are deaf, have
hearing loss or tinnitus




Cynnwys

Cyflwyniad	3
Yr hawl gyfreithiol i ofal iechyd hygyrch yng Nghymru	6
Yr ymchwil	8
Canfyddiadau'r ymchwil	10
Cymorth Cyfathrebu	12
Effaith rhwystrau rhag gallu manteisio ar ofal iechyd	14
Mynediad anghyfartal	16
Cwynion	18
Casgliad	20
Argymhellion	22

Atodiad 1:Y polisi a'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i hawl cleifion i ofal iechyd hygyrch	24
---	----

Atodiad 2: Adroddiadau polisi ychwanegol am fynediad at ofal iechyd	28
--	----



Cyflwyniad

Mae mynediad cyfartal at ofal iechyd yn hawl ddynol. Fodd bynnag, am yn llawer rhy hir, mae pobl gyda cholled clyw wedi cael eu trin yn annheg gan y GIG sydd yn aml yn esgeuluso eu hanghenion cyfathrebu.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn dangos sut mae gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn methu â diwallu anghenion cyfathrebu pobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw, ac sy'n dal i fod heb y systemau a'r prosesau sydd eu hangen i gyflawni hawl pobl i fanteisio ar ofal iechyd. O ganlyniad, mae pobl sy'n fyddar neu wedi colli eu clyw yn wynebu rhwystrau sylweddol rhag gallu manteisio ar ofal iechyd, o fod methu â threfnu apwyntiad gyda Meddyg Teulu, i beidio â deall beth sy'n digwydd iddyn nhw pan fo nhw'n derbyn gofal brys.

Mae hyn i gyd er gwaethaf cyflwyno'r Safonau yn 2013 sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn a phennu'r safon gofal y dylai pobl gyda cholled defnydd eu synhwyrâu ei dderbyn. Cafodd y Safonau Cymru Gyfan ar gyfer dulliau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl sydd wedi Colli Defnydd eu Synhwyrâu (caiff ei gyfeirio ato drwy gydol yr adroddiad fel Safonau Cymru Gyfan neu SCG)¹, eu datblygu ar y cyd â mudiadau sy'n cynrychioli pobl sydd wedi colli defnydd eu synhwyrâu'n benodol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, ond dros ddegawd yn ddiweddarach, ychydig sydd wedi newid. Mae'r driniaeth hon hefyd i'r gwrthwyneb i'r hawlïau sydd wedi'u pennu mewn deddfwriaeth amrywiol gan gynnwys y Ddeddf Cydraddoldeb 2010², ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Cymru³.

Mae ein hymchwil newydd yn bwrw golwg ar brofiad pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yng Nghymru sy'n ceisio manteisio ar y GIG, ynghyd â staff y GIG sy'n darparu'r gwasanaethau hynny, i ddeall ble'n union mae'r rhwystrau.

80%

Dywedodd 80% o gleifion a gafodd eu holi nad oedden nhw'n ymwybodol o'r Safonau Cymru Gyfan.

73%

Mae 73% yn dal i ddweud na ofynnwyd iddyn nhw erioed am eu hanghenion gwybodaeth neu gyfathrebu

Dim ond un o bob 5

(18%) o bobl wnaeth gytuno fod eu hanghenion cyfathrebu yn cael eu diwallu'n amlach nawr na degawd yn ôl.

¹GIG Cymru, Safonau Cymru Gyfan ar gyfer dulliau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl sydd wedi Colli Defnydd eu Synhwyrâu, 2013. Ar gael yma: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/all-wales-standards-for-accessible-communication-and-information-for-people-with-sensory-loss.pdf>

²Llywodraeth y DU, Deddf Cydraddoldeb 2010. Ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

³Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Act 2015. Ar gael yma: <https://futuregenerations.wales/discover/about-future-generations-commissioner/future-generations-act-2015/>

Yn wir mae effaith mynediad anghyfartal yn aruthrol a gallai achosi canlyniadau sylweddol, nid yn unig ar y gofal iechyd a'r driniaeth mae cleifion yn ei dderbyn, ond hefyd ar ddealltwriaeth ac ymreolaeth cleifion dros eu hiechyd eu hunain. Gallai hyn effeithio ar ddiogelwch cleifion sy'n golygu bod cleifion byddar a chleifion gyda cholled clyw methu â gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal iechyd eu hunain yn aml iawn, gan eu rhoi mewn perygl sylweddol o niwed. At hyn, mae'n gwrth-ddweud blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o wella mynediad cyfartal i ofal iechyd a chyflawni dull seiliedig ar atal i wella iechyd a llesiant.

Y rheswm pam fod hyn yn digwydd yw oherwydd mae GIG Cymru yn methu â blaenoriaethu gofal hygyrch, gan gynnwys y seilwaith digidol a ffisegol sydd ei angen i gofnodi a diwallu anghenion y cleifion, a'r hyfforddiant a'r ymwybyddiaeth ar gyfer staff y GIG i sicrhau bod cyfle cyfartal i bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw fanteisio ar ofal.

Dydy hyn ddim yn broblem fach neu 'niche'. Mae 1 ymhob 3 person yng Nghymru'n fyddar neu â cholled clyw (dros 900,000 o bobl) ac rydym yn amcan fod gan o leiaf 300,000 o'r rheiny golled

clyw lle mae'n debygol y bydd angen addasiadau mewn safleoedd gofal iechyd, neu o leiaf, i staff weithredu gyda lefel dda o ymwybyddiaeth o fyddardod. Rydym yn amcan na fyddai 60,000 o bobl yn gallu clywed y rhan fwyaf o sgysiau. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae disgwyl y bydd y ffigwr hon yn cynyddu, felly mae'n rhaid i GIG Cymru fod yn barod i ddiwallu'r anghenion hyn.

Amcangyfrifir hefyd bod rhwng 4,000 – 7,200 o ddefnyddwyr Iaith Arwyddo Prydain (BSL) yng Nghymru.⁴ Mae defnyddwyr Iaith Arwyddo Prydain sy'n fyddar yn aml yn wynebu amddifadedd iaith yn ifanc, a all arwain at anhawster gyda deall a defnyddio Saesneg neu Gymraeg ysgrifenedig. Mae hyn yn golygu bod nifer o ddefnyddwyr Iaith Arwyddo Prydain byddar yn wynebu rhwystrau sylweddol o ran cyfathrebu ac mae'n bosibl eu bod nhw'n dibynnu ar ddehonglwyr neu gyfieithwyr i gyfathrebu gyda phobl sy'n clywed. Fodd bynnag, rydym yn gwybod na chaiff yr anghenion hyn eu diwallu bob amser, fel sydd wedi'i amlygu yn ein hadroddiad.

Mae methu â diwallu anghenion cyfathrebu pobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw ledled y GIG yn torri'r Ddeddf Cydraddoldeb ac yn fath o wahaniaethu.



⁴Bowen, R., & Holtom, D. (2020). Adolygiad Annibynnol o Ddarpariaeth Iaith Arwyddo Prydain ar gyfer Oedolion yng Nghymru (Rhif Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth. 4/2020). Llywodraeth Cymru. <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-01/independent-review-of-bsl-provision-for-adults-in-wales.pdf>



O ganlyniad, mae hyn yn golygu bod GIG Cymru yn gwahaniaethu'n systematig yn erbyn pobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw. Mae hyn yn sgandal cudd. **Mae'n bryd rhoi diwedd i'r sgandal hwnnw.**

Yn y blynyddoedd diweddar, mae peth cynnydd wedi'i gyflawni. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r Safonau Cymru Gyfan, gan gydweithio'n agos gyda mudiadau sy'n cefnogi pobl sydd wedi colli defnydd eu synhwyrau a phartneriaid cyflawni GIG Cymru i lywio'r gwaith hwn, sy'n parhau. Er hynny, mae'r amserlenni'n aneglur, ac mae angen newid ar frys i roi diwedd i'r mynediad anghyfartal i wasanaethau GIG Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru weithredu ar unwaith i roi diwedd i'r gwahaniaethu.

Mae'n bryd sicrhau fod gan bobl fyddar neu sydd â cholled clyw fynediad llawn i wasanaethau GIG Cymru a'u bod wedi'u grymuso i reoli eu hiechyd corfforol a meddyliol eu hunain.

ARGYMHELLIAD



Rhaid i Lywodraeth Cymru ailddatgan eu hymrwymiad yn gyhoeddus i'r gwaith parhaus i adolygu, cryfhau a gweithredu'r Safonau Cymru Gyfan, a chyhoeddi'r Cynllun Gweithredu gydag amserlenni eglur.

Yr hawl gyfreithiol i ofal iechyd hygyrch yng Nghymru

Mae gan bobl fyddar a phobl gyda cholled clyw hawl gyfreithiol i ofal iechyd hygyrch, wedi'i ategu gan ddeddfwriaeth amrywiol.

Mae'r hawl hwn yn caniatáu i gleifion fanteisio ar addasiadau rhesymol i gyflawni mynediad teg i ofal iechyd a chymdeithasol er mwyn goresgyn y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu. Gallai hyn olygu darparu gwybodaeth ar ffurf hygyrch, cyfathrebu mewn ffordd wahanol – er enghraifft dros e-bost yn hytrach nac ar y ffôn – neu gynnig cymorth cyfathrebu proffesiynol, megis cyfieithydd Iaith Arwyddo Prydain.

Mae hyn yn ddyletswydd ragweladwy, sy'n gofyn i GIG Cymru fod yn rhagweithiol yn gwneud addasiadau i ddiwallu anghenion cleifion. Caiff methu â gwneud addasiadau rhesymol ei ddosbarthu fel gwahaniaethu ac mae yn erbyn y gyfraith.

Yng Nghymru'n benodol, mae yna ddeddfwriaeth a chanllawiau ychwanegol sy'n gorfodi hawliau cyfreithiol cleifion i ofal iechyd hygyrch ymhellach gan gynnwys egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal⁵, ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau⁶ i Gyfraith Cymru a'r Safonau Cymru Gyfan.

Caiff y Safonau Cymru Gyfan ar gyfer dulliau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl sydd wedi Colli Defnydd eu Synhwyrau eu datblygu a'u cyflwyno'n benodol yn 2013 i oresgyn y rhwystrau rhag gallu manteisio ar ofal. Cafodd y rhain eu cyhoeddi o ganlyniad i adroddiad ynghylch Gofal Iechyd Hygyrch ar gyfer Pobl sydd wedi Colli Defnydd eu Synhwyrau yng Nghymru, wedi'i lunio gan arbenigwyr ledled y maes iechyd a gofal cymdeithasol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW), ac elusennau gan gynnwys RNID (Action on Hearing Loss Cymru gynt), RNIB Cymru a Sense Cymru.

At hyn, yn 2018, bu i Lywodraeth Cymru roi Safon Gwybodaeth Hygyrch (AIS) GIG Lloegr mewn grym er mwyn cofnodi a chyfathrebu anghenion cyfathrebu a gwybodaeth pobl sydd wedi colli defnydd eu synhwyrau yn effeithiol rhwng staff GIG yng Nghymru.

Diben y Safon Gwybodaeth Hygyrch yw dangos sut y dylid cofnodi anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cleifion sydd wedi colli defnydd eu synhwyrau. Cyhoeddwyd y Safon drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru⁷ i holl gyrff GIG, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau sy'n comisiynu neu'n darparu gwasanaethau iechyd.

Fodd bynnag, mae canllawiau ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datgan *"Bydd llwyddiant y Safon Gwybodaeth Hygyrch yn dibynnu'n helaeth ar ymwybyddiaeth practisau Meddygon Teulu o'u cyfrifoldeb i gaffael a chofnodi'r wybodaeth hon, ynghyd â pharodrwydd cleifion i rannu eu hanghenion cyfathrebu gyda'u meddygfeydd."*

Yn ein llinell amser, rydym wedi tynnu sylw at y ddeddfwriaeth allweddol, canllawiau, adroddiadau, gweithgarwch ymgyrchu, cynnydd a rhwystrau sy'n ymwneud â gwella mynediad i ofal iechyd ar gyfer pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yng Nghymru sydd wedi ymddangos trwy gydol y degawd diwethaf a mwy.

Gallwch ddod o hyd i fanylion pellach ynghylch cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ynghylch mynediad i ofal iechyd ar gyfer pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yng Nghymru ar ddiwedd yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.


Er gwaethaf cyflwyno'r Safonau Cymru Gyfan yn 2013, gorfodi'r Safon Gwybodaeth Hygyrch yng Nghymru yn 2018, a'r ddeddfwriaeth sylfaenol oedd yn bodloni eisoes, mae ein hymchwil yn 2025 yn parhau i ddangos bod ymwybyddiaeth o, a chydymffurfiaeth gyda'r Safon yn gyfyngedig. Mae hyn yn golygu fod pobl fyddar a phobl gyda cholled clyw yng Nghymru yn cael eu methu'n barhaus gan wasanaethau GIG anhygyrch ac yn wynebu'r un rhwystrau roedden nhw'n eu hwynebu dros ddegawd yn ôl.

⁵Llywodraeth Cymru, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2019. Ar gael yma: | GOV.WALES

⁶Y Cenhedloedd Unedig, Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau, 2006. Ar gael yma: <https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-persons-disabilities>

⁷Llywodraeth Cymru, Cylchlythyr Iechyd Cymru, Anghenion Cyfathrebu Pobl sydd wedi Colli Defnydd eu Synhwyrau (Safon Gwybodaeth Hygyrch), 2018. Ar gael yma: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/sensory-loss-communication-needs-accessible-information-standard.pdf>

Llinell amser y safonau cymru gyfan



Yr ymchwil

Nid hwn yw'r adroddiad cyntaf o'i fath. Mae'r RNID wedi mynd ati'n flaenorol ac yn gyson i gyhoeddi ymchwil a thystiolaeth am effaith ddifrifol methiant y GIG i ddarparu gofal iechyd hygyrch. Blwyddyn yn unig ar ôl cyflwyno'r Safonau Cymru Gyfan 2014, bu i RNID asesu'r effaith uniongyrchol. O'r 120 o bobl oedd wedi colli defnydd eu synhwyrau a gafodd eu holi ledled Cymru, doedd y rhan helaeth ddim yn teimlo bod unrhyw newid^a:

- Doedd 91% o gleifion ddim yn ymwybodol o unrhyw welliannau yn y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth gyda nhw.
- Dim ond un ymhob pump claf oedd wedi'u holi am eu hanghenion cyfathrebu a/neu wybodaeth gan wasanaethau gofal iechyd ledled meysydd gofal cynradd ac eilradd.
- Dywedodd dros hanner (58%) nad oedden nhw'n gwybod sut i adrodd am bryder neu gŵyn.

Mae'n bryderus nodi, dros 10 mlynedd yn ddiweddarach, dim ond 15% o ymatebwyr ein harolwg sy'n cytuno y bu unrhyw welliant ynghylch pa mor aml maen nhw'n cael eu holi am eu hanghenion gwybodaeth a chyfathrebu o gymharu â degawd yn ôl, a dim ond 18% sy'n cytuno caiff yr anghenion hyn eu diwallu yn amlach rŵan na degawd yn ôl.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn crybwyll canfyddiadau ein hymchwil newydd ynghylch profiad cleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw, a safbwynt staff GIG Cymru sy'n darparu gofal.

Atebodd 106 o bobl sy'n byw yng Nghymru'r arolwg i bobl fyddar neu sydd â cholled clyw, a dywedodd 18% mai iaith arwyddo yw eu prif iaith neu eu hiaith ddewisol.

Casglwyd y data rhwng Tachwedd y 13eg 2024 ac Ionawr yr 20fed 2025.

Cynhaliwyd arolwg gyda staff y GIG yng Nghymru hefyd. Gan ystyried y gyfradd ymateb isel a'r maint sampl bach o n=47, byddem yn eich annog i drin y data gyda phwyll gan nad ydyw'n cynrychioli safbwyntiau staff y GIG ledled Cymru. Roedden ni yn teimlo, fodd bynnag, ei fod yn bwysig rhannu'r data sydd wedi'i gasglu, er gwaethaf y maint sampl bach, i gynnig cipolwg o rai o brofiadau a phryderon y rheiny sy'n darparu gofal i bobl sy'n fyddar ac sydd â cholled clyw.


Mwy na 10 mlynedd yn ddiweddarach...



dim ond 15% sy'n cytuno y gofynnir iddynt am eu hanghenion gwybodaeth a chyfathrebu yn amlach



dim ond 18% sy'n cytuno bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu'n amlach nawr



Canfyddiadau'r ymchwil

Ymwybyddiaeth o Safonau Cymru Gyfan a mynediad i Feddygon Teulu

Bu i'n harolwg o gleifion sydd naill ai'n fyddar neu sydd â cholled clyw gynnig darlun pryderus dros ben: **dywedodd 80% nad ydyn nhw'n ymwybodol o'r Safonau Cymru Gyfan.**

Mae un rhan o dri (30%) yn dweud eu bod nhw'n dal yn methu â chysylltu gyda'u Meddyg Teulu mewn ffordd sy'n hygyrch iddyn nhw ond dywedodd 44% nad yw eu Meddyg Teulu yn cysylltu gyda nhw mewn ffordd sy'n hygyrch iddyn nhw, mae hyn yn dangos cyferbyniad o ran hygyrchedd wrth gysylltu gyda Meddyg Teulu neu wrth i'r Meddyg Teulu gysylltu gyda nhw. Mae hyn yn awgrymu o bosibl fod camau cychwynnol wedi'u cymryd i wella hygyrchedd, er enghraifft, drwy sicrhau bod cysylltu gyda meddygfa'n hygyrch, ond heb ymgorffori'r newid hwn ar gyfer cyfathrebu parhaus, felly mae Meddygon Teulu eu hunain yn parhau i gysylltu gyda chleifion mewn ffyrdd anhygyrch.

"Mae diffyg dealltwriaeth ac empathi yn parhau. Dim masgiau tryloyw, dim gwirio dealltwriaeth. Ychydig iawn o amynedd, mae yna fwy o ymwybyddiaeth o fyddardod ond fel arfer caiff rhagdybiaeth ei wneud ynghylch yr angen i arwyddo."

- Benyw, 55-64

O ran hyder cleifion, dydy 42% ddim yn teimlo'n hyderus yn cysylltu gyda'u Meddyg Teulu. A dim ond 56% ddywedodd eu bod nhw wedi gadael apwyntiadau GIG yn teimlo eu bod nhw wedi deall yr wybodaeth wnaethon nhw ei derbyn am eu hiechyd yn gyfan gwbl – roedd 38% yn dweud eu bod nhw heb ddeall yr wybodaeth.

Dim ond 55% ddywedodd eu bod nhw wedi gadael apwyntiadau GIG gyda dealltwriaeth bendant o'r deilliant a'r camau nesaf – dydy 37% heb wneud hynny.

Er gwaethaf y Safonau Cymru Gyfan a'r canllawiau sydd wedi bod ar waith ers dros ddegawd, mae 73% yn dal i ddweud nad oes neb wedi'u holi am eu hanghenion gwybodaeth neu gyfathrebu.

Dywedodd nifer tebyg (74%) bod staff y GIG naill ei heb eu hysbysu, neu'n anaml iawn wedi'u hysbysu o'u hanghenion gwybodaeth a chyfathrebu cyn cwrdd â nhw; – dywedodd bron i hanner (48%) nad ydyn nhw byth yn cael eu hysbysu. Yn syfrdanol, dim ond 4% o gleifion a ddywedodd bod staff y GIG yn cael eu hysbysu bob amser cyn cwrdd gyda nhw.

73% yn —

dal i ddweud nad ydyn nhw erioed wedi cael eu holi am eu hanghenion gwybodaeth neu gyfathrebu.

74% yn

dweud naill ai nad yw staff y GIG erioed wedi cael gwybod am eu hanghenion gwybodaeth a chyfathrebu cyn cyfarfod â nhw, neu nad ydynt wedi cael gwybod yn aml iawn

“Yr oll ydw i eisiau yw gallu anfon neges testun at fy meddygfa pan mae angen apwyntiad arna i. Rydw i eisiau iddyn nhw ddarllen y neges testun, ymateb a threfnu apwyntiad imi – mae’n ymddangos nad yw hyn yn digwydd mwyach er roedd yn digwydd o’r blaen, felly mae’r gwasanaeth wedi gwaethygu.”

- Benyw, 65-74

Ymhlith yr enghraifft fach o staff GIG Cymru wnaethon ni eu holi, mae ymwybyddiaeth o’r Safonau Cymru Gyfan yn gymysg – gyda llai na hanner (43%) yn dweud eu bod yn ymwybodol, a’r un gyfran yn dweud nad ydyn nhw, gyda 14% pellach yn dweud nad ydyn nhw’n gwybod. Dim ond 45% sy’n dweud eu bod nhw’n deall sut mae’n berthnasol i gleifion a’u hanghenion gyda dim ond hanner (50%) yn dweud eu bod yn deall sut mae’r Safonau Cymru Gyfan yn berthnasol i’w rôl nhw.

Yn fwy cadarnhaol, mae 81% o staff y GIG yn dweud eu bod nhw’n gwybod sut i ganfod a oes gan berson anghenion cyfathrebu, gyda dim ond 2% yn anghytuno gyda hynny. Fodd bynnag, mae’n rhaid inni fod yn ofalus gyda’r ffigwr hon o ystyried y cyferbyniad sylweddol yn y profiadau y mae pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw wedi adrodd amdany’n nhw. Mae angen ymchwilio ymhellach i’r gwahaniaeth hwn, i ddeall pam, os yw staff y GIG yn gwybod sut i fanteisio ar yr wybodaeth hon, dydyn nhw naill ai ddim yn gwneud hynny neu pam nad yw’n cael ei droi i wella gofal cleifion.

Wrth gwrs mae’r profiadau hyn yn datgelu nad yw anghenion cyfathrebu cleifion yn cael eu cofnodi, eu crybwyll neu eu bodloni fel y dylen nhw, ac mae ymwybyddiaeth staff o’r Safonau Cymru Gyfan yn isel, er gwaethaf cyflwyno canllawiau yn 2013 a chyflwyno seilwaith digidol i sicrhau bod modd gweithredu hyn yn 2018. Mae cleifion yn cael eu methu o’r cychwyn cyntaf pan maen nhw’n cysylltu gyda GIG Cymru, ac mae

rhwystrau cyfathrebu yn effeithio arnyn nhw’n syth pan maen nhw’n manteisio ar ofal.

Yn anffodus, dydy’r rhwystrau hyn ond megis cychwyn i bobl fyddar neu sydd â cholled clyw sy’n manteisio ar wasanaethau GIG Cymru.

O ganlyniad mae diffygion peryglus yn nealltwriaeth cleifion ynghylch eu gofal a’u triniaeth. Dywedodd traean (34%) eu bod nhw wedi wynebu rhwystrau wrth dderbyn gwybodaeth am feddyginiaeth neu driniaeth, 31% wrth ddeall canlyniad apwyntiad, 30% wrth dderbyn diagnosis, 28% wrth dderbyn gwybodaeth am atgyfeiriad, a 35% wrth dderbyn canlyniadau profion.



43%

Mae llai na hanner (43%) o staff GIG Cymru a gafodd eu holi yn ymwybodol o’r safonau

ARGYMHELLION



- Mae’n rhaid i GIG Cymru adolygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o’u dyletswyddau ynghlwm â Safonau Cymru Gyfan a’r Safon Gwybodaeth Hygyrch.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgymryd ag ymgyrch cyfathrebu i hyrwyddo hawliau cyfreithiol cleifion a’r safon y dylen nhw ei ddisgwyl wrth fanteisio ar wasanaethau’r GIG.

Cymorth Cyfathrebu

Fodd bynnag, mae rhwystrau o ran mynediad yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r amgylchedd ffisegol a'r systemau trefnu apwyntiadau. Mae angen cymorth cyfathrebu ar nifer o bobl fyddar ac sydd â cholled clyw i fanteisio ar wasanaethau'r GIG. Gallai hyn amrywio'n sylweddol o naill berson i'r llall; gallai olygu ymwybyddiaeth sylfaenol o fyddardod, megis clinigwyr yn wynebu'r claf wrth siarad, tynnu gorchuddion wyneb a siarad yn araf deg; i fynediad i weithwyr proffesiynol cymorth cyfathrebu. Yn bryderus, dydy un ymhob pedwar claf (25%) heb dderbyn y cymorth gwybodaeth a chyfathrebu sydd ei angen arnyn nhw.


Dywedodd bron i un ymhob pump o ymatebwyr ein harolwg bod angen gweithiwr proffesiynol cymorth cyfathrebu i fod yn bresennol i fanteisio ar apwyntiad Meddyg Teulu neu ysbyty, a'r ffurf cymorth fwyaf cyffredin sydd ei angen yw cyfieithydd Iaith Arwyddo Prydain. Fodd bynnag, ymhlith y gweithwyr cymorth proffesiynol eraill a gafodd eu crybwyll oedd cofnodwyr nodiadau, Cofnodwyr Lleferydd i Destun (STTR), gwefuslefarydd ac eraill. Tra bod y sampl o'r rheiny sydd angen cymorth cyfathrebu yn rhy fach (n=19) i adrodd mewn dyfnder, mae ein canlyniadau'n dangos profiadau gwael cyson. Dyma rai enghreifftiau:

- Gweithwyr proffesiynol cymorth cyfathrebu ddim yn cael eu darparu mewn apwyntiadau fel y gofynnwyd amdanyn nhw.
- Cleifion ddim yn derbyn unrhyw wybodaeth am eu gweithiwr proffesiynol cyfathrebu cyn yr apwyntiad, gan gynnwys a yw'r gweithiwr proffesiynol wedi'i gadarnhau ai pheidio.
- Gweithwyr proffesiynol cymorth cyfathrebu ddim yn bresennol mewn apwyntiadau, er eu bod wedi'u trefnu.



25%

wedi cael eu hamddifadu o'r wybodaeth a'r gefnogaeth cyfathrebu sydd eu hangen arnynt.



17%

Dim ond 17% o staff GIG Cymru sy'n teimlo eu bod yn gallu diwallu anghenion gwybodaeth a chyfathrebu cleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw bob amser.

"Er bod dehonglwyr wedi'u trefnu, dydyn nhw ddim yn bresennol bob amser. Hefyd, pan maen nhw yn bresennol, yn aml iawn maen nhw'n cyrraedd yr un pryd â'r claf, felly does dim amser i drafod diben yr apwyntiad neu rai o'r cwestiynau y gallwn ni eu gofyn."



Gallai'r ddarpariaeth wael o gymorth cyfathrebu fod yn sgil sawl pwynt methiant: diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith staff y GIG; problemau gyda chyfathrebu gyda gwasanaethau dehongli; neu systemau gwael mewn lle i drefnu cymorth cyfathrebu.

Yn wir, mae dealltwriaeth staff y GIG o sut i gofnodi, crybwyll a diwallu anghenion cleifion gan gynnwys darparu cymorth cyfathrebu, yn wael: dim ond 57% sy'n gwybod sut i gofnodi anghenion cyfathrebu claf; ac mae llai na hanner (48%) yn gwybod sut i ychwanegu nodyn at gofnod ar-lein claf i sicrhau bod pobl eraill yn ymwybodol o anghenion cyfathrebu claf. Tra bod bron i ddau draean (62%) yn dweud eu bod yn gwybod sut i drefnu cymorth cyfathrebu ar gyfer claf, megis cyfieithydd Iaith Arwyddo Prydain.

At hyn, mae ffigwr bryderus o isel (17%) o staff GIG sy'n teimlo eu bod yn gallu diwallu anghenion gwybodaeth a chyfathrebu cleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw

bob amser.

O ganlyniad i'r profiadau negyddol hyn, dywedodd y rhan fwyaf o bobl y byddai'n well ganddyn nhw drefnu eu cymorth cyfathrebu eu hunain yn hytrach na dibynnu ar ddarparwr y GIG i'w drefnu, er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw fwy o reolaeth, gwybodaeth a sicrwydd cyn eu hapwyntiadau neu driniaeth feddygol. Fodd bynnag, mae rhai'n teimlo'n gryf nad yw hyn yn gyfrifoldeb arnyn nhw fel claf.

Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) sy'n gyfrifol am drefnu dehonglwyr ar gyfer apwyntiadau a gofal GIG Cymru, a oedd yn meddu ar gytundeb gyda Chyngor Caerdydd yn gychwynnol ac yna cafodd ei ymestyn i wasanaeth ledled Cymru. Dydy WITS ddim yn ddarparwr arbenigol o gymorth cyfathrebu ar gyfer pobl sydd â cholled clyw – maen nhw hefyd yn darparu dehonglwyr a chyfieithwyr ar gyfer ieithoedd tramor, yn ogystal â dehonglwyr Iaith Arwyddo Prydain.

ARGYMHELLIAD



- Adolygu'r ffordd y mae cymorth cyfathrebu'n cael ei gynnig i Wasanaethau GIG Cymru drwy WITS, gan gydweithio gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn a mudiadau sy'n eu cynrychioli i ddeall sut gellir gwella'r gwasanaeth hwn.

Effaith rhwystrau rhag gallu manteisio ar ofal iechyd

Mae effaith GIG Cymru yn methu â darparu cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch i gleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw yn golygu bod 56% wedi gorfod dibynnu ar naill ai partner, plant, teulu neu ffrindiau i ddehongli neu drosglwyddo gwybodaeth iddyn nhw mewn apwyntiad. Mae hyn yn cyflwyno risg, gan fod y rhan fwyaf o'r unigolion hyn, er gwaethaf eu bwriadau gorau, ddim yn gymwys i gyfleu gwybodaeth feddygol cymhleth a sicrhau ei fod wedi'i ddeall a'i dderbyn fel y bwriedir. At hynny, mae'n wrthwynebiad i breifatrwydd, urddas a hawl claf i berchnogi eu hiechyd a'u gofal eu hunain.

56%
wedi gorfod dibynnu ar bartner,
plant, teulu neu ffrindiau i ddehongli
neu drosglwyddo gwybodaeth
iddynt mewn apwyntiad.

"Mae'n rhaid imi ddod a fy ngŵr gyda mi bob amser. Mae hyn wedi chwalu fy hyder ac annibyniaeth ac i fod yn onest mae'n fy atal rhag gweld y doctor oni bai bod yn rhaid imi wneud hynny."

- Benyw, 55-64

Mae'r sgil-effaith hefyd yn golygu colli ffydd ac ymddiriedaeth yng ngwasanaethau'r GIG- dywedodd 21% eu bod nhw wedi colli ymddiriedaeth yn staff y GIG o ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu hygyrch, ac mae gan hyn oblygiadau gwirioneddol o ran sut mae unigolion yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u gofal. Dywedodd chwarter (25%) eu bod nhw wedi osgoi ceisio cymorth am bryder iechyd newydd, neu fynd ar ofyn apwyntiadau dilynol neu adolygu (24%).

21% yn
dweud eu bod wedi colli ymddiriedaeth
yn staff y GIG o ganlyniad i ddiffyg
cyfathrebu hygyrch.



“Fe es i i’r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gyda phroblemau poen yn fy mrest ychydig flynyddoedd yn ôl. Doedd staff yno ddim yn gwybod sut i drefnu dehonglwr ac roedden nhw’n anghwrtais tuag ata i pan wnes i geisio gofyn am un. Fe wnes i gyflwyno cwyn ffurfiol ond wnaethon nhw ddim mynd i’r afael ag o. Fe wnes i golli ffydd yn y broses cwynion a dydw i ddim yn cyboli gyda chwynion mwyach.”

- Benyw, 35-44, Defnyddiwr Iaith Arwyddo

Mae hyn yn arwain at risgiau sylweddol i iechyd a llesiant cleifion. Dywedodd bron i un ymhob pump (18%) fod cyflwr iechyd wedi gwaethgu yn sgil y diffyg cyfathrebu hygyrch hwn, ac mae 11% yn teimlo bod eu hiechyd wedi’i roi mewn perygl. Dywedodd bron i un ymhob 10 (8%) eu bod nhw hyd yn oed wedi osgoi galw am ambiwlans neu fynd i’r Adran Damweiniau ac Achosion Brys o ganlyniad. Mae hyn yn dangos methiant llwyr yng Ngwasanaethau GIG Cymru i ddarparu gofal o ansawdd cyfartal i gleifion byddar a chleifion sydd â cholled clyw, sydd i’r gwrthwyneb o’r safonau cyfreithlon y dylai cleifion ei ddisgwyl.

18%

yn dweud fod cyflwr iechyd wedi’i waethgu oherwydd y diffyg cyfathrebu hygyrch hwn.

“Fe wnes i gwrdd ag ymgynghorydd yn flaenorol i drafod mewnblianiad yn y cochlear. Fe wnaethon nhw wrthod penawdwr ac roeddwn i’n ei chael hi’n anodd clywed yr wybodaeth a gafodd ei darparu. Roedd yn rhaid imi ofyn am nodiadau manwl, ac fe gymrodd 6 mis iddyn nhw gyrraedd. Fe wnes i ddim bwrw iddi gyda’r mewnblianiad yn y cochlear bryd hynny oherwydd roeddwn i’n teimlo nad oedd modd imi ofyn y cwestiynau a derbyn yr atebion oedd eu hangen arna i.”

- Gwryw, 55-64

Mynediad anghyfartal

Pan ofynnwyd i bobl ystyried cydraddoldeb eu profiad o ofal iechyd, cytunodd bron i hanner y bobl (47%) ei fod yn anoddach iddyn nhw fel rhywun sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw i gynnal iechyd corfforol da yn sgil diffyg cyfathrebu hygyrch. Ac mae dros hanner (57%) yn cytuno ei fod yn anoddach iddyn nhw gynnal iechyd meddwl a lles da. Mae hyn yn arbennig o bryderus o ystyried mai Cymru ydy'r unig wlad yn y DU sydd heb wasanaeth iechyd meddwl arbenigol i bobl fyddar.⁹

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n ymddangos gallai rhwystrau rhag gallu manteisio ar iechyd a gofal waethygu iechyd meddwl a lles gwael pobl, gyda dros hanner y cleifion (53%) yn dweud eu bod yn teimlo o dan straen yn ceisio manteisio ar wasanaethau'r GIG oherwydd mae'n rhaid iddyn nhw frwydro i sicrhau caiff eu hanghenion cyfathrebu eu bodloni.

Mae yna farn gyffredin ymhlith pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yng Nghymru nad oes ganddyn nhw'r un mynediad i'r GIG â phobl sy'n clywed, mae (48% o'r farn nad oes ganddyn nhw'r un mynediad â phobl sy'n gallu clywed), a dim ond chwarter (26%) sy'n cytuno caiff pobl fyddar a

phobl sydd â cholled clyw eu trin yn deg gan y GIG.

Er gwaethaf yr effaith negyddol amlwg y mae mynediad anghyfartal i ofal iechyd yn ei gael ar bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw, mae lefelau hyfforddi staff y GIG yn isel. Golygai hyn hyfforddiant ynghylch sut i gefnogi cleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw, hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod, neu hyfforddiant sydd am Safonau Cymru Gyfan yn benodol.

Dwywedodd dros hanner o staff GIG Cymru wnaethon ni eu holi (56%) nad ydyn nhw wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ynghylch naill ai Safonau Cymru Gyfan, sut i gefnogi cleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw, neu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o fyddardod neu golled clyw.

48%

Nid yw bron i hanner y rheiny wnaethon ni eu holi (48%) yn credu bod ganddyn nhw'r un mynediad i'r GIG â phobl sy'n clywed.

"Fel aelod B/byddar o staff gyda mewnbllaniad yn y cochlear, mae hwn yn bwnc hollbwysig. Rydw i'n teimlo gallai'r GIG wneud llawer mwy gyda'r adnoddau sydd ar gael megis Relay UK - rydym yn ymwybodol ohono ond ni allwn sicrhau caiff ei gymeradwyo i'w ddefnyddio. Ymwybyddiaeth staff, mae angen cynnal mwy o hyfforddiant."

- Gweithiwr Proffesiynol Allied Health

"Mae'n ddigon i'ch gwylltio bod ysbytai yn colli teclynnau clyw pobl pan maen nhw'n gleifion preswyl. Dydy'r staff heb eu hyfforddi i wirio a glanhau teclynnau clyw fel mater o drefn; a dweud y gwir, rydw i'n amau eu bod nhw'n derbyn unrhyw hyfforddiant am hyn o gwbl."

- Gweithiwr Proffesiynol Allied Health

⁹ Pobl fyddar Cymru: Anghydraddoldeb cudd, Grŵp Iechyd Meddwl a Lles Pobl Fyddar Cymru, Mehefin 2021. Ar gael yma: : https://www.swansea.ac.uk/media/Deaf-People-Wales_Hidden-Inequality-2021.pdf

Ymhlith ymatebwyr ein harolwg roedd staff o wahanol adrannau o GIG Cymru, gan fod mynediad gwael i ofal iechyd yn broblem y mae pobl fyddar â phobl sydd â cholled clyw yn ei ddioddef ledled y GIG cyfan.

“Mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth o effaith y problemau hyn o fewn gofal iechyd ehangach a mudiadau gofal iechyd, ac mae hyn yn ei dro yn gallu arwain at anghenion heb eu diwallu a gofal anniogel o bosibl. Rhaid mynd ati i gyflawni mwy i godi ymwybyddiaeth o'r effaith, gwella cydymffurfiaeth ac atebolrwydd a lleihau'r risg o ofal gwael yn y pen draw.”

- Gwyddonydd Gofal Iechyd

Mae'n hollbwysig na chaiff hyn ei ystyried fel cyfrifoldeb un rhan o'r GIG neu ar gyfer un adran, ond ei fod yn her ar gyfer y system gyfan sydd angen dull system gyfan i sicrhau gwelliant.

“Mae angen dull staff cyfan arnom o ran colled synhwyrâu a'i bwysigrwydd”

- Gwyddonydd Gofal Iechyd



Cwynion

Mae'r rhwystrau hyn yn parhau hyd yn oed drwy gydol y broses gwynion, lle ddylai cleifion allu mynegi eu pryderon a'u hanfodlonrwydd gyda'u triniaeth. Dywedodd 20 o bobl wrthym ni eu bod nhw wedi cyflwyno cwyn ac, o'r rheiny, dim ond hanner oedd o'r farn bod y broses yn hygyrch.


Penderfynodd 42 o bobl eraill nad oedden nhw am gyflwyno cwyn er bod ganddyn nhw reswm da i wneud hynny. Ymhlith y rhesymau dros hyn roedd: doedden nhw ddim yn meddwl y byddai'r cwyn yn newid unrhyw beth (26 allan o 42); ddim yn meddwl y byddai'r cwyn yn cael ei ystyried o ddifrif (18 allan o 42); ddim yn gwybod sut i gyflwyno cwyn (7 allan o 42); neu doedd y broses ddim yn hygyrch fel rhywun sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw (5 allan o 42).

Mae'n bwysig nodi hefyd y baich dwbl mae nifer o gleifion yn ei wynebu; mae llawer yn methu â chwyno, neu â phrofiad negyddol o gwyno, am y diffyg mynediad i wasanaethau'r GIG, gan fod y broses cwynion yn anhygyrch. Mae un claf yn tynnu sylw at hyn yn gryno:

“Dydw i ddim yn gwybod canlyniad [fy nghwyn] oherwydd fe wnaethon nhw geisio fy ffonio ond wnaethon nhw ddim e-bostio nac anfon neges testun felly doedd dim modd imi ganfod y canlyniad.”

- Benyw, 25-34, defnyddiwr iaith arwyddo

Bydd hyn hefyd yn effeithio ar ymwybyddiaeth gwneuthurwyr penderfyniadau o raddfa a brys y broblem hon. Os ydy'r problemau gyda manteisio ar GIG Cymru ar gyfer pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yn eang, ond ni allai cleifion, neu does dim cymhelliant ganddyn nhw i gwyno, mae'r wybodaeth hon yn cael ei golli ac ni allai lywio'r prosesau gwneud penderfyniadau.





Rhaid peidio ag anwybyddu a thanddatgan difrifoldeb a graddfa'r broblem hon, a'r effaith y mae mynediad gwael i ofal iechyd yn ei gael ar bobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw.

Fodd bynnag, tra bod effaith mynediad gwael i ofal iechyd yn sylweddol; does dim angen i'r newidiadau sydd eu hangen i wneud gwelliannau fod yn sylweddol. Tra bod taer angen am newidiadau ar raddfa uwch, gan gynnwys gyda seilwaith digidol, mae'r newidiadau lleiaf – fel staff yn bod yn fwy ymwybodol o bobl fyddar, yn cymryd eu hamser i wirio bod claf wedi deall neu fod ganddyn nhw bopeth sydd ei angen arnyn nhw i allu deall – wneud gwahaniaeth aruthrol.



“Cefais lawdriniaeth fawr yn ddiweddar a ni chefais unrhyw gefnogaeth drwy gydol yr holl brofiad. Rydw i’n meddwl fod hynny gan eu bod nhw’n meddwl fy mod i’n gallu clywed a deall. Doedd gen i ddim syniad y bu bron imi farw nes i aelod o fy nheulu ddweud wrtha i.”

- Gwryw, 45-54, defnyddiwr iaith arwyddo

ARGYMHELLIAD:



- Mae'n rhaid i GIG Cymru gydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus i adolygu gweithdrefnau cwyno'r GIG, gan gynnwys y canllaw Gweithio i Wella a'r System Rheoli Pryderon Unwaith dros Gymru a gwneud newidiadau i sicrhau hygyrchedd ar gyfer cleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw.

Casgliad

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn awgrymu methiant cyffredin gan wasanaethau GIG Cymru, gan gynnwys byrddau iechyd, sy'n cynnwys methu â bodloni'r gofynion allweddol i ddiwallu anghenion pobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw. Mae hyn yn cynnwys gofynion allweddol trwy'r Safonau Cymru Gyfan, Safon Gwybodaeth Hygyrch a'r Ddeddf Cydraddoldeb i gofnodi a diwallu anghenion cyfathrebu pobl ledled systemau GIG Cymru, a gwneud yr addasiadau angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Nid yw'r canfyddiad hwn yn un newydd. Bu i sawl adroddiad, gan RNID, elusennau eraill, cyrff cyhoeddus, Llywodraeth Cymru a phwyllgorau'r Senedd, dynnu sylw at y problemau hyn ac ychwanegu at y cyfoeth o dystiolaeth am union raddfa'r broblem hon. Rydym yn ymhelaethu ynghylch rhai o'r rhain yn yr atodiad ynghyd â thynnu sylw at eu galwadau am newid, gyda sawl un yn adlewyrchu ein rhai ni. Er gwaethaf hyn, bu'r cynnydd yn gyfyngedig dros ben. Ni allwn barhau yn y modd hwn. Ni allwn ganiatáu i'r un rhwystrau y mae pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw yn eu hwynebu wrth fanteisio ar GIG Cymru barhau am ddegawd arall neu fwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu eu hymrwymadau tuag at fynediad cyfartal i ofal iechyd, dull pwylllog tuag at gyflawni gofal GIG Cymru, a dull ataliol o wella iechyd pobl yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth rydym wedi ei hamlygu yn dangos sut mae GIG Cymru yn mynd ati i danseilio'r blaenoriaethau hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r diffyg cydymffurfriad gydag, a diffyg gorfodi'r Safonau a deddfwriaethau eraill yn effeithiol dros y degawd diwethaf yn gwrth-ddweud ac yn bygwth cynnydd o ran ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella iechyd a lles pellach pobl yng Nghymru. Mae'n rhaid inni fynd i'r afael â'r broblem hon ar unwaith.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, ac fel yr amlygwyd ar y diwedd, rydym yn cynnig cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i wella mynediad i ofal iechyd ar gyfer pobl fyddar a phobl sydd â cholled clyw.

Er gwaethaf y darlun hynod bryderus, mae yna gyfleoedd gwych ar gyfer newid, ac mae cynnydd eisoes ar waith drwy waith Grŵp Gweithredu Cyfathrebu Hygyrch Llywodraeth Cymru, ynghyd â meysydd arfer da ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym yn sicr fod angen arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad o'r newydd o ran y brys i fynd i'r afael â'r broblem hon er mwyn ysgogi cynnydd a chynnal ymgysylltiad yr holl randdeiliaid perthnasol i gyflawni'r newid sydd ei angen.

Mae'n rhaid i welliannau i'r seilwaith digidol a thechnoleg fod yn ganolog i'r broses hon, gan sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth bendant ar gyfer Gofal ac Iechyd Digidol Cymru (DHCW). At hyn, mae'n rhaid i welliannau i gofnodion cleifion, a datblygiad ac ehangiad parhaus nodweddion 'App'



GIG Cymru flaenoriaethu gwaith i sicrhau caiff anghenion pobl fyddar ac sydd â cholled clyw eu cofnodi, eu crybwyll a'u diwallu mewn sefydliadau gofal iechyd. Rhaid sicrhau ystyriaeth bellach o sut gellir blaenoriaethu hyn yng nghynllun gwaith DHCW a pha ymarferoldeb gellir ei ymchwilio i, er enghraifft, ymgeisio am gymorth cyfathrebu a chofnodi manylion unrhyw raglen archebu. Wrth gwrs mae'n rhaid gofalu bod cleifion sydd â phrofiad byw fod yn rhan o waith datblygu'r cynlluniau hyn, a rhaid inni hefyd sicrhau bod dulliau i ddiwallu anghenion cyfathrebu pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol.

Bu diffyg hyfforddiant ar gyfer staff GIG Cymru hefyd yn thema graidd drwy gydol y gwaith hwn. Fel sydd wedi'i grybwyll yn y Cynllun Gweithredu parhaus i adolygu ac adnewyddu Safonau Cymru Gyfan, hoffem weld hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff y GIG ar ymwybyddiaeth o fyddardod a'r Safonau eu hunain. Mae yna sawl enghraifft o hyfforddiant da yn bodoli eisoes ledled Cymru, gan gynnwys cwrs hyfforddiant ymwybyddiaeth ar-lein sydd wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer nyrsys gan Dr Julia Terry ym Mhrifysgol Abertawe. Mae angen mapio'r hyfforddiant presennol hwn er mwyn ymchwilio i gyfleoedd i'w gynnig ledled Cymru ynghyd ag unrhyw fylchau ar gyfer hyfforddiant ychwanegol.



ARGYMHELLION



- Dylai gwella mynediad i GIG Cymru fod yn flaenoriaeth ganolog yng nghynllun gwaith Gofal ac Iechyd Digidol Cymru (DHCW), gan gynnwys gwella seilwaith digidol; megis y cofnod cleifion, 'app' GIG Cymru a TG eraill i sicrhau bod gan staff y GIG yr adnoddau a'r wybodaeth sydd ei angen i gynnig gofal hygyrch.
- Rhaid i DHCW ymchwilio a allai systemau digidol, gan gynnwys 'app' GIG Cymru er enghraifft, gynnig adnodd i geisio am gymorth cyfathrebu mewn apwyntiadau, a modd cofnodi archebion yn yr 'app'.
- Rhaid i DHCW ymgynghori ac ymgysylltu gyda phobl sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw ac sydd angen cymorth cyfathrebu i lywio'r cynlluniau hyn.
- Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i fapio ac adolygu cyfleoedd hyfforddi presennol sydd ar gael ar ymwybyddiaeth o fyddardod, y Safonau Cymru Gyfan a chynnig cymorth cyfathrebu ac ati ac ymchwilio arfer da, diffygion mewn darpariaeth, a chyfleoedd i gynnig hyn ledled Cymru.

Argymhellion



LLYWODRAETH CYMRU:

1. Rhaid i Lywodraeth Cymru ail-ddatgan ei hymrwymiad yn gyhoeddus i'r gwaith parhaus i adolygu, cryfhau a gorfodi Safonau Cymru Gyfan, a'r pwysigrwydd o roi diwedd i anghydraddoldeb y mae cleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw yn eu hwynebu.
2. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen wedi'i diweddarau ar gyfer gweithredu'r cynllun gweithredu sydd wedi'i datblygu gan Grŵp Gweithredu Cyfathrebu Hygyrch, i sicrhau caiff Safonau Cymru Gyfan cryfach eu cynnig a'u gorfodi'n effeithiol.
3. Rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru sicrhau bod y dulliau llywodraethu, gorfodi a monitro newydd sy'n rhan o'r Safonau Cymru Gyfan yn gadarn ac yn adrodd am gynnydd yn effeithiol, neu'n tynnu sylw at broblemau gyda gweithredu, gan sicrhau modd i bartneriaid i weithredu ar unwaith i ddatrys problemau neu oedi.
4. Rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru adolygu'r ffordd y mae darparwyr a chomisiynwyr yn caffael gweithwyr proffesiynol cymorth cyfathrebu, a'r cymorth cyfredol sy'n cael ei gynnis drwy WITS, i asesu sut mae'n diwallu anghenion cleifion byddar a chleifion sydd â cholled clyw, a staff y GIG.
5. Rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru adolygu hyfforddiant presennol ac sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer staff y GIG sy'n ymdrin â phynciau gan gynnwys: ymwybyddiaeth o fyddardod; y Safonau Cymru Gyfan; defnyddio systemau TG i gofnodi, tynnu sylw at a diwallu anghenion cleifion; a threfnu a darparu cymorth cyfathrebu. Bydd hyn yn fodd i Lywodraeth Cymru nodi diffygion mewn darpariaeth a chysondeb ledled Cymru gyfan a gweithlu GIG Cymru. Rhaid i'r hyfforddiant hwn fod yn orfodol i staff GIG Cymru.
6. Rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio gyda GIG Cymru ar y cyd â Llais a'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus i adolygu hygyrchedd systemau cwynion GIG Cymru. Mae'n rhaid i hyn gynnwys adolygiad o'r canllawiau Gweithio i Wella a'r System Rheoli Pryderon Unwaith dros Gymru a gwneud y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau hygyrchedd ar gyfer cleifion sy'n fyddar neu sydd â cholled clyw.
7. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgymryd ag ymgyrch cyfathrebu i hyrwyddo hawliau cyfreithlon cleifion i ofal iechyd hygyrch, a'r safon y dylen nhw ei ddisgwyl wrth fanteisio ar wasanaethau GIG Cymru.

GIG CYMRU, BYRDDAU IECHYD, YMDDIRIEDOLAETHAU A CHYRFF CYHOEDDUS ERAILL:

- 8.** Rhaid i holl bartneriaid cyflawni allweddol, gan gynnwys Gofal ac Iechyd Digidol Cymru (DHCW), Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW), Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW), Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) ac eraill ymrwymo i'r gwaith sydd ei angen i wella hygyrchedd gwasanaethau GIG Cymru ynghyd â dangos hyn yn eglur yn eu strategaethau a'u cynlluniau gwaith.
- 9.** Rhaid i GIG Cymru adolygu ymwybyddiaeth staff a dealltwriaeth o'u dyletswyddau ynghlwm â'r Safonau Cymru Gyfan a'r Safon Gwybodaeth Hygyrch.
- 10.** Dylai GIG Cymru adolygu arfer gorau dull cysylltu amgen (er mwyn i gleifion allu cysylltu gyda sefydliadau gofal iechyd, gan gynnwys Meddygon Teulu) ledled sefydliadau gofal iechyd a chefnogi comisiynwyr a darparwyr gyda chanllawiau ar alluogi cleifion i gysylltu gyda nhw.
- 11.** Rhaid i GIG Cymru archwilio practisau Meddygon Teulu i sicrhau caiff anghenion cyfathrebu cleifion eu nodi a'u cofnodi'n rhagweithiol, ac fel pwynt mynediad i'r GIG, cynnig dulliau eraill ar wahân i'r ffôn sy'n cynnig mynediad teg i apwyntiadau – a sicrhau fod hyn wedi'i ymgorffori drwy gydol y cyfathrebu gyda chleifion.
- 12.** Rhaid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) gyd-gynhyrchu datblygiadau yn 'App' GIG Cymru gyda chleifion sydd ag addasiadau rhesymol wedi'u cofnodi ar eu cofnod claf, i sicrhau bod yr 'App' yn cefnogi cleifion drwy eu grymuso i reoli eu hanghenion mynediad ledled GIG Cymru.
- 13.** Rhaid i DHCW hefyd ymchwilio a allai systemau digidol, gan gynnwys 'app' GIG Cymru gynnwys adnodd i geisio am gymorth cyfathrebu mewn apwyntiadau, ac i gofnodi gwybodaeth ynghylch archebion yn yr 'app' a'u rhannu gyda chleifion.
- 14.** Rhaid i GIG Cymru gydweithio gyda byrddau iechyd i adolygu'r ffordd caiff cymorth cyfathrebu ei gynnig ledled gwasanaethau'r GIG a drwy WITs, gan gydweithio gyda chleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn a mudiadau sy'n eu cynrychioli i ddeall sut gellir diwallu eu hanghenion yn well.
- 15.** Fel rhan o hyn, fe ddylen nhw ystyried trefnu gwasanaethau dehongli Iaith Arwyddo Prydain arbenigol gyda metrigau perfformiad a thargedau ar wahân sy'n sicrhau safonau uchel sy'n benodol ar gyfer pobl fyddar. Byddai'r gwasanaethau arbenigol hyn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnig ar amser, gyda llai o wasanaethau wedi'u canslo a mwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol a hygyrchedd.
- 16.** Dylai GIG Cymru gynnwys gweithwyr proffesiynol cymorth cyfathrebu yn strategaethau gweithlu'r GIG i sicrhau caiff anghenion cleifion ei diwallu a'u hymgorffori yn y gwaith cynllunio.
- 17.** Dylai GIG Cymru sicrhau bod yr holl wasanaethau sydd wedi'u comisiynu – boed hynny yn y GIG neu gan ddarparwyr preifat – yn dangos tystiolaeth o gydymffurfiaid gyda Safonau Cymru Gyfan, y Safon Gwybodaeth Hygyrch a'r Ddeddf Cydraddoldeb fel rhan allweddol o dendro a monitro drwy gydol y cytundeb.

Atodiad 1: Y polisi a'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i hawl cleifion i ofal iechyd hygyrch

Mae'r hawl i ofal iechyd hygyrch i bobl fyddar a phobl â cholled clyw yn hawl gyfreithiol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol bod addasiadau rhesymol mewn lle er mwyn darparu mynediad cyfartal at wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol i bobl anabl, er mwyn cael gwared ar y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu. Gall y rhain gynnwys darparu gwybodaeth mewn fformat hawdd ei ddeall, cyfathrebu mewn ffordd wahanol, er enghraifft drwy e-bost yn hytrach na ffôn, neu ddarparu cymorth cyfathrebu proffesiynol, fel cyfieithydd cymwys Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Mae hon yn ddyletswydd sydd i'w disgwyl sy'n golygu ei bod yn ofynnol i ddarparwyr iechyd fel GIG Cymru fod yn rhagweithiol wrth wneud addasiadau i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu. Mae gwasanaethau hefyd yn gyfrifol am dalu costau unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen. Caiff methiant i wneud addasiadau rhesymol ei ystyried fel gwahaniaethu, sy'n groes i'r gyfraith.

Yng Nghymru, mae sicrhau bod gofal iechyd ar gael i bobl sy'n fyddar ac sydd â cholled clyw hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Un o brif amcanion y Ddeddf ydy creu 'Cymru Iachach'. Mae cyflawni'r nod hwn yn gofyn am system gofal iechyd teg a chynhwysol, gan gynnwys sicrhau bod dulliau cyfathrebu o fewn GIG Cymru ar gael i bob claf, a bod pob claf yn gallu deall eu cyflyrau iechyd, eu dewisiadau triniaeth a'u cynlluniau gofal yn llawn.

Cafodd y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2023 fel rhan o'r Ddyletswydd Ansawdd drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'r safonau'n berthnasol i holl wasanaethau GIG Cymru ac yn gosod y disgwyliad y dylai pawb gyrraedd eu potensial llawn ar gyfer bywyd iach nad yw'n amrywio o ran ansawdd yn ôl sefydliad neu nodweddion personol.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi

gwneud yn glir ei hymrwymiad i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yng nghyfraith Cymru, sy'n darparu safon ryngwladol ar gyfer hawliau dynol pobl anabl. Caiff cyfathrebu effeithiol a phriodol ei adnabod fel elfennau hanfodol er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo urddas a pharch.

Yn olaf, cafodd Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Gwybodaeth a Chyfathrebu gyda Phobl sydd wedi Colli Defnydd eu Synhwyrddau eu datblygu a'u cyflwyno yn benodol yn 2013 i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cael mynediad at ofal. Daeth y rhain o ganlyniad i adroddiad ar Ofal Iechyd Hygyrch i Bobl â Cholled Synhwyrddau yng Nghymru, oedd wedi'i gynllunio gan arbenigwyr ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac elusennau gan gynnwys RNID, RNIB Cymru a Sense Cymru.

Roedd yr adroddiad hwn yn argymhell fod gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru Bolisi Gwybodaeth Hygyrch, ac o ganlyniad, cafodd Safonau Cymru Gyfan eu cynhyrchu. Cafwyd croeso cynnes i'r Safonau, ac ar y pryd Llywodraeth Cymru oedd y cyntaf yn y DU i fabwysiadu'r dull hwn tuag at sicrhau bod gofal iechyd yn hygyrch. Mae'r Safonau yn nodi'r ddarpariaeth gwasanaeth y dylai pobl ddisgwyl i gael eu bodloni ac yn cynnwys canllawiau i:

- Sicrhau bod yr holl daflenni a dogfennau gwybodaeth i gleifion yn hygyrch.
- Sicrhau bod ardaloedd cleifion yn cael eu hasesu i fod yn hygyrch - wardiau ysbytai, ardaloedd cleifion allanol, adran Damweiniau ac Achosion Brys, a gofal sylfaenol - a dylid asesu hyn ochr yn ochr â phobl â phrofiad go iawn.
- Bod yn rhaid i wasanaethau iechyd "ddeall a bodloni" anghenion gwybodaeth a chyfathrebu cleifion.

Mae'r Safonau yn cwmpasu'r hyn sy'n ofynnol i ddarparu gofal hygyrch ar draws gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gofal brys a gofal heb ei drefnu. Mae hyn yn cwmpasu:

- Gofyn i gleifion am eu hanghenion cyfathrebu ac amlygu hyn ar gofnod cleifion i sicrhau ei fod yn cael i gyfathrebu rhwng adrannau. Mae hyn yn nodi'n benodol na ddylai cleifion orfod ailadrodd eu hanghenion.
- Ystyried amgylchedd y mynediad – goleuadau, lliw, sŵn cefndir, yr angen am systemau dolen ar gyfer rhai sy'n defnyddio cymorth clyw.
- Amrywiaeth o ddulliau cyswllt ar gyfer gwneud, cyfathrebu am, neu aildrefnu apwyntiadau - e-bost, negeseuon testun, ffôn a gwefannau.
- Hyfforddiant i'r holl staff priodol i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r angen am wahanol fathau o gyfathrebu, a sut i gyfathrebu'n effeithiol â chleifion â cholled synhwyraidd.
- Dull rhagweithiol o sicrhau bod trefniadau ar waith cyn i gleifion gyrraedd gofal, er mwyn sicrhau nad yw apwyntiadau'n cael eu colli
- Hyrwyddo'r gwahanol fathau o gyfathrebu sydd ar gael i gleifion er mwyn eu hannog i'w defnyddio.
- Y dylid diwallu anghenion pob claf sydd angen cymorth cyfathrebu a bod staff y GIG yn gyfrifol am sicrhau bod cleifion yn deall popeth sydd angen iddynt ei wybod am eu gofal.
- Dylai'r broses pryderon ac adborth fod yn hawdd ei dilyn ac yn darparu amrywiaeth o ddulliau cyswllt, a dylid casglu a monitro data am bryderon cleifion am fynediad er mwyn adnabod unrhyw batrymau.

Roedd adolygu a monitro gweithredu a chydymffurfiaeth byrddau iechyd yn rheolaidd yn elfen allweddol o'r Safonau yn flaenorol. Goruchwyliwyd hyn i ddechrau gan y Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach), ac roedd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd adrodd ar gynnydd tuag at weithredu'r Safonau drwy sgôr RAG blynyddol. Fodd bynnag, gwnaed penderfyniad gan Brif Weithredwyr y bwrdd iechyd i roi'r gorau i hyn yn 2022, heb ymgynghori â phartneriaid na chleifion perthnasol, ac ni roddwyd unrhyw system amgen o fonitro'r Safonau ar waith. Pan wnaed y penderfyniad hwn, nid oedd pob un ond un Bwrdd Iechyd yn bodloni'r Safonau.

Mae'n amlwg bod diffyg perchnogaeth ac atebolrwydd o'r Safonau cenedlaethol wedi arwain at ddifffyg ysgogiad ac uchelgais i weithredu'r Safonau yn llawn a gwella canlyniadau i gleifion. Mae hyn wedi arwain at ychydig iawn o gynnydd yn cael ei wneud, gyda gwasanaethau GIG Cymru yn methu â diwallu anghenion cleifion

byddar a chleifion â cholled clyw.

Ers 2022, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i alwadau brys i weithredu gan RNID ac RNIB Cymru drwy hwyluso cyfres o weithdai yn 2023 i adolygu'r Safonau, cydymffurfio â nhw, ac ystyried a ydynt yn dal i fod yn addas i'r diben. Daeth hyn ag Arweinwyr Cydraddoldeb GIG Cymru o'r saith bwrdd iechyd, rhanddeiliaid allweddol Llywodraeth Cymru, partneriaid cyflenwi eraill ac elusennau sy'n cynrychioli pobl â cholled synhwyraidd ynghyd. Canlyniad y gweithdai oedd cynllun gweithredu, wedi'i gymeradwyo gan Weinidog Iechyd Llywodraeth Cymru, i adolygu'r safonau, gan gynnwys mecanwaith mwy cadarn o fonitro gweithredu. Roedd hyn hefyd yn cynnwys argymhelliad i ehangu'r Safonau i fod yn berthnasol i unrhyw un yng Nghymru sydd ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol, gan ehangu cwmpas y cleifion y byddai'r Safonau yn cael effaith gadarnhaol arnynt.



Y Safon Gwybodaeth Hygyrch yng Nghymru

Mae hefyd yn bwysig nodi, yn ogystal â Safonau Cymru Gyfan, yn 2018, bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgorffori Safon Gwybodaeth Hygyrch (AIS) GIG Lloegr, er mwyn sicrhau ei bod yn casglu a chyfathrebu anghenion cyfathrebu colled synhwyrdd ac anghenion gwybodaeth rhwng staff y GIG yng Nghymru yn effeithiol.

Cyhoeddwyd y Safon hon ar gyfer sut y mae'n rhaid cofnodi anghenion gwybodaeth a chyfathrebu cleifion â cholled synhwyrdd drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru i holl gyrff, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG sy'n comisiynu neu'n darparu gwasanaethau iechyd

yng Nghymru ym mis Medi 2018.

Roedd y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn gofyn am ddilyn y camau canlynol ar unwaith:

- Pob aelod perthnasol o staff i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gofnodi gwybodaeth.
- Rhaid i bob system ar gyfer caffael neu gaffael yn y dyfodol gydymffurfio â'r Safon ar unwaith.
- Rhaid dilyn yr holl gamau perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r cynllun gweithredU.

Mae'r AIS yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gymryd pum cam allweddol:

1. ADNABOD

Rhaid iddynt ofyn i bobl ag anabledd a/neu golled synhwyrdd os oes angen cymorth arnynt i gysylltu â nhw, i gyfathrebu'n dda, ac i ddeall gwybodaeth ysgrifenedig.



2. COFNODI

Rhaid iddynt gofnodi anghenion cyfathrebu a gwybodaeth unigolion mewn ffordd safonol.



3. AMLYGU

Rhaid i'r manylion hyn, er eu bod yn gyfrinachol, fod yn weladwy iawn neu yn gysylltiedig â rhybudd electronig i annog staff i weithredu.



4. RHANNU

Rhaid iddynt rannu anghenion cyfathrebu a gwybodaeth unigolyn gyda gwasanaethau eraill fel rhan o broses atgyfeirio arferol, neu ryddhau a throsglwyddo, yn unol â gofynion diogelu data.



5. CWRDD

Rhaid i bobl anabl a'r rhai sydd â cholled synhwyrdd allu cysylltu â gwasanaethau'r GIG pan fydd angen, cyfathrebu'n dda yn ystod apwyntiadau a deall yr wybodaeth a roddir iddynt.



Roedd Cylchlythyr Iechyd Cymru yn darparu gwybodaeth dechnegol a chanllawiau i bractisau meddygon teulu ac unigolion ar sut i fodloni'r dyletswyddau a'r safonau hyn, gan gynnwys manylion system ddigidol newydd i amlygu unrhyw anghenion cyfathrebu sydd gan gleifion. Roedd hefyd yn gosod cynllun ar gyfer cyflwyno hyn ar draws pob meddygfa yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae canllawiau ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru ei hun yn nodi: "Bydd llwyddiant y Safon Gwybodaeth Hygyrch yn dibynnu i raddau helaeth ar ymwybyddiaeth practisau meddygon teulu o'u cyfrifoldeb

i gasglu a chofnodi'r wybodaeth hon, a pharodrwydd cleifion i rannu eu hanghenion cyfathrebu â'u meddygfeydd."

Er gwaethaf cyflwyno Safonau Cymru Gyfan yn 2013, yr AIS yn cael ei orfodi yng Nghymru yn 2018, a'r ddeddfwriaeth greiddiol sy'n bodoli eisoes, mae ein hymchwil yn 2025 yn parhau i ddangos bod ymwybyddiaeth o'r Safon a chydymffurfiaeth â hi yn gyfyngedig. Golyga hyn fod pobl fyddar a phobl â cholled clyw yng Nghymru yn cael eu methu'n barhaus gan wasanaethau'r GIG sy'n anhygyrch a'u bod yn wynebu'r un rhwystrau ag y gwnaethant fwy na degawd yn ôl.

Atodiad 2: Adroddiadau polisi ychwanegol am fynediad at ofal iechyd

Nid ni yw'r unig sefydliad i amlygu natur brys y mater hwn. Yn 2023, cyhoeddodd RNIB Cymru ei adroddiad [Make it Make Sense](#) gan dynnu sylw at sut mae gwybodaeth gofal iechyd anhygyrch yn peryglu cleifion â cholled golwg, a galw am weithredu ar unwaith i weithredu a monitro Safonau Cymru Gyfan yn llawn.

Mae adroddiad diweddar gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, [Equality Matters](#), yn tynnu sylw at sut mae diffyg addasiadau rhe-symol wedi arwain at fethiannau difrifol mewn gofal cleifion, gan dynnu sylw at achos unigolyn byddar a oedd yn brif ofalwr am ei mam. Nododd ymchwiliad fethiannau yn y gofal a ddarparwyd i fam yr unigolyn gan fynegi ymddiheuriad, gan gydnabod y rhwystrau yr oedd hi wedi'u hwynebu fel gofalwr byddar.

Roedd adroddiad arall gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar [Fynediad i Bractisau Meddygon Teulu](#) hefyd yn tynnu sylw at themâu tebyg, fel:

- Gwybodaeth am gleifion, gan gynnwys bod ganddynt golled synhwyraidd, heb ei rhanu neu yn gorfod ei darparu sawl gwaith.
- Practisau ddim yn gwneud addasiadau ar gyfer pobl â cholled synhwyraidd er eu bod wedi


cael


gwybod amdanynt.

- Anhawster wrth ddefnyddio'r ffôn i gyfa-threbu â'r practis neu ddeall cyhoeddiadau awtomataidd.

Mae'r adroddiad hefyd yn dogfennu bod cleifion yn profi "gorlwyth synhwyraidd" mewn practisau meddygon teulu, yn ogystal â "gorfod gweiddi/methu â chlywed". Tynnodd y Comisiynydd sylw at yr effaith y mae hyn yn ei chael ar hwyliau a hyder cleifion wrth gael mynediad at ofal.

Felly, mae cyfoeth o dystiolaeth am raddfa ac effaith y mater hwn ar ein cymunedau ac eraill cydd-angen-cymorth cyfathrebu neu addasiadau





**RN
I:D** | Cefnogi pobl fyddar,
sydd â cholled clyw
neu dinitws

RNID yw enw masnachu Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID). Elusen gofrestredig yng Nghymru, Lloegr (207720) a'r Alban (SC038926). Cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (454169)

